OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 414 (Cy.59)

ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Diwygio) (Cymru) 2003

Wedi'u gwneud	- -	*26 Chwefror 2003*
Yn dod i rym	- -	*28 Chwefror 2003*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan baragraffau 1 a 2(2) o Atodlen 9 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**1**) ac adran 26(3) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993(**2**) sydd wedi'u breinio bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy yng Nghymru(**3**):

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Diwygio) (Cymru) 2003 a deuant i rym ar 28 Chwefror 2003.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn ystyr "y prif Reoliadau" ("*the principal Regulations*") yw Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 1993(**4**)).

Diwygio'r prif Reoliadau

3.—(1) Diwygir y prif Reoliadau fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 1 o Ran 1 o Atodlen 2 yn lle'r nodyn sy'n dwyn y pennawd "Transitional Arrangements" rhodder y canlynol —

"**Transitional Arrangements**

Transitional arrangements were in place to phase in the effect of significant changes in liability which arose from the 2000 valuation of non-domestic property. Such transitional arrangements cease to operate from 1 April 2003.".

(**1**) 1988 p.41; diwygiwyd Atodlen 9, paragraff 2(2), gan Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (p.42), adrannau 139 a 194(4), Atodlen 5, paragraffau 1, 44(2), (3), (4), 79(3) ac Atodlen 12, Rhan II.
(**2**) 1993 p.38.
(**3**) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**4**) O.S. 1993/252.